

<b>Teitl: Title:</b>	Polisi a Gweithdrefn Gwrth-Aflonyddu, Bwlio a Throseddau Casineb Myfyrwyr
<b>Fersiwn: Version</b>	F1
<b>I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol? Who does this Policy Relate to?</b>	Myfyrwyr / Staff / Myfyrwyr a Staff / Arall (rhowch fanylion) Myfyrwyr

#### Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity

Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link:	<a href="#">Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb</a>
<i>Effaith ar yr Iaith Gymraeg</i>  <i>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.</i>	<i>Welsh Language Impact</i>  <i>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar y Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.</i>

#### Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

<b>Perchennog y Ddogfen: Document Owner:</b>	Teitl swydd / Job title Swyddog Dirprwy Brif Weithredwr - Pobl, Profiadau a Diwylliant		
<b>Ymgynghoriad/ Consultation:</b>	Rhestrwch nhw / Please list Cydllynydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Chynrychiolwyr Myfyrwyr		
<b>Dyddiad Cymeradwyo / Date Approved</b>	Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group	Enw'r Grŵp a'r Dyddiad / <i>Grŵp Diogelu 22 Ionawr 2024</i>	
	Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee:	<i>17/1/2024</i>	
	Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees:	Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee:	Os yn berthnasol / If applicable
		Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee	Os yn berthnasol / If applicable
		Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee:	Os yn berthnasol / If applicable
Corff Llywodraethu / Governing Body:	Os yn berthnasol / If applicable		
<b>Dyddiad Adolygu: Review Date:</b>	Ionawr 2027		

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r [Ffurflen Cais Cyfieithu](#)  
Send approved document for Translation using the [Translation Request Form](#)

Rhifwch bob adran a pharagraff  
Please number each section and paragraph

## Polisi a Gweithdrefn Gwrth-Aflonyddu, Bwlio a Throseddau Casineb Myfyrwyr

### Tabl Cynnwys

1. Cyflwyniad	3
2. Cwmpas a Diben	3
3. Diffiniadau	4
4. Hyfforddiant	7
5. Y Gymraeg	7
6. Monitro	7
<b>Gweithdrefn Gwrth-Aflonyddu, Bwlio a Throseddau Casineb Myfyrwyr</b>	
1. Egwyddorion Cyffredinol	8
2. Rhoi gwybod am fwlio, aflonyddu neu gam-drin rhywiol	8
3. Datrysiad Anffurfiol	9
4. Ymchwiliad Ffurfiol	9
Atodiad Un - Ymagwedd Raddedig at Gam-drin Cyfoedion	11

# Polisi a Gweithdrefn Gwrth-Aflonyddu, Bwlio a Throseddau Casineb gan Fyfyrrwyr

## 1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae Coleg Cambria wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd cefnogol, cyfeillgar, diogel a chadarnhaol sy'n parchu urddas a hawliau'r holl ddysgwyr a lle gall unigolion wireddu eu llawn botensial a mwynhau'r profiad gorau posibl o ddysgu yn y coleg a dysgu yn y gwaith. Nid yw'r Coleg yn goddef unrhyw fath o wahaniaethu, aflonyddu na bwlio ac mae'n disgwyl i bob aelod o gymuned y Coleg drin ei gilydd â pharch, cwrteisi ac ystyriaeth bob amser.
- 1.2 Mae Coleg Cambria yn falch o hyrwyddo amgylchedd cynhwysol i bob dysgwr waeth beth fo'u hoedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. Fel coleg cydnabyddir y dylid dathlu amrywiaeth o bob ffurf. Caiff hyn ei annog i sicrhau bod yr holl gydweithwyr, dysgwyr a rhanddeiliaid yn teimlo'n falch o archwilio a rhannu eu hunaniaeth eu hunain.
- 1.3 Er bod y Polisi hwn a'r weithdrefn gysylltiedig ar wahân i'r [Polisi Disgyblu Myfyrrwyr](#), gellir ei ddefnyddio yn lle'r camau priodol o'r [Polisi Disgyblu Myfyrrwyr](#) os bydd canlyniadau'r ymchwiliad hwn yn sefydlu achos dros gamau disgyblu.

## 2. Cwmpas a Diben

- 2.1 Mae'r polisi hwn a'r weithdrefn gysylltiedig yn berthnasol i bob dysgwr a phrentis waeth beth fo'r dull astudio y maent arno neu hyd eu cyfnod astudio.
- 2.2 Gall yr ymddygiad sydd wedi'i restru yn y polisi hwn gael ei gyflawni wyneb yn wyneb neu ar-lein. Mae disgwyl i aelodau o gymuned y Coleg gadw at y polisi hwn wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol ac unrhyw fath arall o ryngweithio ar-lein/electronig.
- 2.3 Diben y polisi a'r weithdrefn hon yw:
- Cefnogi a chynnal amgylchedd gwaith cadarnhaol ffyniannus i bob dysgwr, heb unrhyw fath o ymddygiad amhriodol neu annerbyniol.
  - Ei gwneud yn glir bod gwahaniaethu ac aflonyddu yn annerbyniol a bod gan bob aelod o gymuned y Coleg rôl i'w chwarae wrth greu amgylchedd ffyniannus i bawb.
  - Darparu fframwaith ar gyfer parch ac ymddygiad da i atal a dileu pob math o fwlio ac aflonyddu, gan gynnwys aflonyddu hiliol a rhywiol a chamymddwyn rhywiol.
  - Amlygu'r opsiynau sydd ar gael i ddysgwyr sy'n teimlo eu bod neu wedi bod yn destun bwlio, aflonyddu, trosedd casineb, gwahaniaethu hiliol, camymddwyn rhywiol, neu unrhyw ymddygiad amhriodol neu annerbyniol arall.
  - Darparu mecanwaith y gellir ei ddefnyddio i fynd i'r afael â chwynion, lle bynnag y bo modd, mewn modd amserol.
  - Nodi'r cyfrifoldebau ar gyfer rheoli a chefnogi dysgwyr pan mae pryderon yn codi.

### 3. Diffiniadau

#### Aflonyddu

3.1 Mae aflonyddu yn digwydd pan fo unigolyn yn destun ymddygiad digroeso sydd â'r diben (bwriadol) neu'r effaith (anfwriadol) o:

- Dorri urddas y person hwnnw, neu
- Creu amgylchedd bygythiol, gelyniaethus, diraddiol, bychanol neu dramgwyddus i'r unigolyn hwnnw.

3.2 Mae aflonyddu yn anghyfreithlon pan fo ar sail rhyw, hil, ailbennu rhywedd, hil, tarddiad ethnig neu genedlaethol, cyfeiriadedd rhywiol, oedran, crefydd neu gred, neu am reswm yn ymwneud ag anabledd person. Mae hefyd yn anghyfreithlon i achosi aflonyddu rhywiol ar unigolyn.

3.3 Gall aflonyddu fod ar sawl ffurf. Mae enghreifftiau o ymddygiad annerbyniol yn cynnwys:

• Caneuon, sylwadau, jôcs, negeseuon e-bost neu ystumiau sarhaus, eithafiaeth a radicaleiddio.

• Arddangos posteri, cyhoeddiadau a graffiti sarhaus.

• Cyswllt corfforol neu symudiadau digroeso.

• Sylwadau sarhaus am wisg neu olwg person.

• Sylwadau sarhaus am hil, rhywedd, statws priodasol, anabledd, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth rhywedd neu oedran person.

• Gweiddi, iaith sarhaus neu fygythiol.

• Lledaenu sïon, honiadau neu gario clecs maleisus.

• Gwahardd neu anwybyddu rhywun.

• Ymyrraeth trwy boeni, ysbïo neu stelcian.

• Dyrnu, cicio neu unrhyw ddefnydd o drais.

• Ystumiau rhywiol.

• Edrych neu gilwenu'n awgrymog.

• Awgrym o ddarparu rhywbeth yn gyfnewid am ffafrau rhywiol.

• Meithrin perthynas amhriodol.

• Stelcio

• Dinoethiad anweddus

## **Bwlio**

- 3.4 Mae bwlio, er nad yw wedi'i ddiffinio'n gyfreithiol, yn cael ei ddisgrifio fel ymddygiad sarhaus, bygythiol, maleisus neu niweidiol, cam-drin neu gamddefnyddio pŵer trwy ddulliau sydd â'r bwriad o danseilio, bychanu, difrio neu anafu'r derbynnydd. Mae bwlio yn aml yn cael ei anelu at rai grwpiau oherwydd hil, crefydd, rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol.
- 3.5 Yn gyffredinol, mae bwlio yn digwydd pan fydd person neu grŵp o bobl yn gweithredu eu pŵer dros berson neu grŵp arall o bobl. Gall achosi problemau iechyd corfforol a meddyliol difrifol i'r dioddefwr a gall ddifetha siawns yr unigolion o lwyddo yn y coleg ac yn eu gyrfa yn y dyfodol.
- 3.6 Seiberfwlio yw anfon neu bostio testun neu ddelweddau niweidiol, creulon neu dramgwyddus drwy e-bost, rhyngrwyd, gwefannau rhwydweithio cymdeithasol neu ddyfeisiau cyfathrebu digidol eraill. Mae'r rhain yn cynnwys unrhyw destun neu ddelweddau gan gynnwys y rhai wedi'u tynnu gan ddefnyddio camera, ffôn symudol a dyfeisiau eraill o'r fath a allai gael eu dosbarthu fel eithafol, ac yn groes i ymrwymiad y Coleg i gefnogi Gwerthoedd Prydeinig.
- 3.7 Gall fod yn anodd iawn gwahaniaethu rhwng bwlio ac aflonyddu. Yn aml nid y gweithredoedd y mae'r cyflawnwr yn eu cymryd sy'n diffinio a yw'n fwlio neu'n aflonyddu. Aflonyddu yw pan fydd rhywun yn cael ei dargedu oherwydd un o'u nodweddion. Os yw rhywun yn cael ei dargedu gyda negeseuon e-bost amhriodol oherwydd eu bod yn anabl, byddai hyn yn cael ei ystyried yn aflonyddu. Fodd bynnag, mae bwlio yn ymwneud yn fwy â pherson yn gyffredinol yn hytrach nag un o'u nodweddion. Felly, os yw rhywun wedi ffraeo gyda'i ffrind a'u bod yn anfon negeseuon testun cas, bwlio fyddai hyn. Nid ydynt yn cael eu targedu oherwydd nodwedd bersonol ond yn hytrach oherwydd materion cyfeillgarwch.
- 3.8 Gall y camau sy'n cael eu cymryd o ran bwlio ac aflonyddu fod yr un fath, felly yn y ddwy sefyllfa mae gweiddi a bod yn sarhaus yn enghraifft o'r math hwn o ymddygiad. Fodd bynnag, y rheswm pam bod rhywun yn cael ei dargedu sy'n rhoi'r gwahaniaeth rhwng y ddau. Os yw rhywun yn profi rhywun yn gweiddi arnyn nhw a'u cam-drin ar hap oherwydd nad ydyn nhw'n ffrindiau â rhywun, bwlio yw hyn. Os yw rhywun yn gweiddi arnynt ac yn eu cam-drin oherwydd eu bod yn feichiog, mae hyn yn aflonyddu.
- 3.9 Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod, waeth beth fo'r diffiniad, mae bwlio ac aflonyddu yn annerbyniol a dylid rhoi gwybod i'r Coleg am hyn.

## **Trosedd Gasineb a Digwyddiadau Casineb**

- 3.10 Caiff y term 'Trosedd Gasineb' ei ddefnyddio i ddisgrifio amrywiaeth o ymddygiad troseddol lle mae person yn cael ei ysgogi gan elyniaeth neu'n dangos gelyniaeth tuag at berson oherwydd ei anabledd, hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth drawsryweddol. Caiff yr agweddau hyn ar hunaniaeth person eu galw'n 'nodweddion gwarchoddedig'. Gall trosedd gasineb gynnwys cam-drin geiriol, brawychu, bygythiadau, aflonyddu, ymosod a bwlio, yn ogystal â difrod i eiddo. Gall y cyflawnwr hefyd fod yn ffrind, yn ofalwr neu'n rhywun sy'n adnabod y person yn dda ond sy'n ecsbloetio ei berthynas â'r unigolyn er budd ariannol neu at ryw ddiben troseddol arall.

3.11 Mae Trosedd Gasineb yn ei holl ffurfiau yn anghyfreithlon.

Mae hyn yn cynnwys:

- Ymosodiadau personol o unrhyw fath, gan gynnwys trais.
- Bygythiadau neu sarhad ysgrifenedig neu ar lafar, aflonyddu a galw enwau.
- Difrod i eiddo, gan gynnwys graffiti.
- Galwadau ffôn bygythiol neu ddifriol, negeseuon testun, negeseuon e-bost, negeseuon gwib a negeseuon sy'n cael eu hanfon mewn ystafelloedd sgwrsio.

3.12 Mae'r canlyniad i'r rhai sy'n cael eu herlyn a'u cael yn euog o drosedd gasineb yn debygol o olygu bod ganddynt gofnod troseddol a allai niweidio eu cyfleoedd gyrfa yn y dyfodol yn ddifrifol. Bwriad y rhestr uchod yw rhoi argraff glir o'r mathau o ymddygiad y mae'r Coleg yn eu hystyried yn annerbyniol; fodd bynnag, dim ond enghreifftiau sydd ynddo ac nid yw'n hollgynhwysfawr.

3.13 Mae'r term 'Digwyddiadau Casineb' yn cyfeirio at ddigwyddiad nad yw'n gyfystyr â throredd, ond sy'n gwneud i'r dioddefwr deimlo ei fod wedi'i dargedu oherwydd ei anabledd, hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, neu hunaniaeth drawsryweddol. Gallai digwyddiadau casineb sy'n ailadrodd gael eu hystyried yn aflonyddu, a fyddai wedyn yn gyfystyr â throredd gasineb.

### **Cam-drin rhywiol ac aflonyddu rhywiol**

3.14 Cam-drin rhywiol yw unrhyw weithred neu weithgaredd rhywiol digroeso. Mae llawer o wahanol fathau o gam-drin rhywiol yn bodoli ar gontinwmm a gall fod yn seicolegol a/neu gorfforol. Gall cam-drin rhywiol gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, dreisio, ymosodiad rhywiol, cam-drin plant yn rhywiol, gorfodaeth ac aflonyddu rhywiol.

3.15 Mae aflonyddu rhywiol yn fath penodol o aflonyddu sy'n cynnwys defnyddio naws rywiol amlwg neu ymhlyg, gan gynnwys addewidion digroeso ac amhriodol o wobrau yn gyfnewid am gymwynasau rhywiol. Gall aflonyddwyr fod o unrhyw ryw neu rywedd a gall ymddygiad gynnwys:

- Sylwadau neu jôcs rhywiol amhriodol.
- Negeseuon e-bost sydd â chyfeiriadau rhywiol.
- Darluniau neu luniau rhywiol.
- Symudiadau rhywiol digroeso a all gynnwys cyffwrdd neu ymosodiad rhywiol.
- Ystumiau rhywiol.
- Edrych neu gilwenu'n awgrymog.
- Awgrym o ddarparu rhywbeth yn gyfnewid am ffafrau rhywiol.
- Meithrin perthynas amhriodol.

- Stelcio
- Dinoethiad anweddu

3.16 Gall aflonyddu rhywiol fod yn ddigwyddiad untro, nid oes angen iddo fod yn rhan o gyfres o ddigwyddiadau parhaus. Nid yw rhyngweithio rhywiol sy'n cael ei groesawu neu ei wahodd yn aflonyddu rhywiol oherwydd ei fod yn ddymunol. Fodd bynnag, y derbynnydd sy'n rheoli'r penderfyniad o a yw eisiau'r rhyngweithiad ai peidio.

#### **4. Hyfforddiant**

4.1 I gefnogi gweithrediad y polisi hwn, mae hyfforddiant ymwybyddiaeth cyfle cyfartal yn cael ei ddarparu i'r holl staff. Mae'r Coleg hefyd yn darparu hyfforddiant penodol i reolwyr sy'n ofynnol i gynnal ymchwiliadau fel rhan o'r gweithdrefnau hyn. Gall cydweithwyr sy'n delio â materion sy'n ymwneud â nodweddion gwarchoddedig gael cyngor, arweiniad a chymorth gan Gydlynnydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Coleg.

4.2 Caiff materion yn ymwneud â bwlio a chyfle cyfartal eu hymdrin â nhw'n benodol fel rhan o'r rhaglen ymsefydlu ac yn barhaus trwy'r cynnig cwricwlwm a sesiynau datblygiad personol. Mae'r sesiynau hyn yn rhoi'r cyfle i wneud myfyrwyr yn ymwybodol o'r polisi hwn ac i atgyfnerthu nad yw'r Coleg yn goddef unrhyw fath o gam-drin, bwlio, gwahaniaethu nac aflonyddu ac yn disgwyl i bob aelod o gymuned y coleg drin ei gilydd a pharch, cwrteisi ac ystyriaeth bob amser. Mae'r sesiwn hefyd yn rhoi mewnwelediadau i fyfyrwyr i effeithiau bwlio, o ran materion fel homoffobia; rhywiaeth; LHDTC+, hiliaeth, Trosedd Gasineb, Gwerthoedd Prydeinig ac ati.

#### **5. Y Gymraeg**

5.1 Mae'r canllawiau hyn ar gael yn Gymraeg a Saesneg yn unol â Safonau'r Gymraeg. Bydd pob cyfarfod, gohebiaeth a gwasanaeth cymorth sy'n berthnasol i'r polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig yn cael eu cynnig yn Gymraeg.

#### **6. Monitro**

6.1 Bydd unrhyw adroddiadau o fwlio a/neu aflonyddu yn cael eu hadrodd i'r Grŵp Diogelu i benderfynu a oes angen cymryd unrhyw gamau traws-golegol. Bydd data o fonitro ac adborth yn cael eu hadolygu'n flynyddol a'u defnyddio i ddiweddarau'r polisi os oes angen.

# Gweithdrefn Gwrth-Aflonyddu, Bwlio a Throseddau Casineb Myfyrwyr

## 1. Egwyddorion Cyffredinol

- 1.1 Mae Coleg Cambria yn amgylchedd cynhwysol i bawb ac ni fydd unrhyw ddigwyddiad o gam-drin, bwlio, aflonyddu neu drosedd gasineb yn cael ei oddef. Fel rhan o gofrestru yn y Coleg mae pob dysgwr yn cytuno i ymrwymiad y Coleg i bolisi dim goddefgarwch o unrhyw achosion o gam-drin, bwlio, aflonyddu neu droseddau casineb a digwyddiadau casineb. Dylai dysgwyr sy'n teimlo y gallent fod yn ddiodefwr o gam-drin, bwlio, aflonyddu neu drosedd gasineb neu ddigwyddiad casineb godi eu pryderon gan ddefnyddio'r weithdrefn hon.
- 1.2 Mae'n bwysig cydnabod efallai na fydd ymddygiad sy'n cael ei ystyried yn aflonyddu neu'n fwlio gan un person yn cael ei ystyried felly gan berson arall. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn cytuno ar achosion eithafol o fwlio ac aflonyddu, ond y meysydd 'llwyd' sy'n gallu achosi'r problemau mwyaf.
- 1.3 Yn ystod ac ar ôl i unrhyw ymchwiliad ddod i ben, bydd cymorth yn cael ei roi i'r ddau barti, i ailsefydlu perthnasoedd sy'n unol â'r rhai sydd i'w disgwyl o dan y Polisi Disgyblu Myfyrwyr.

## 2. Rhoi gwybod am fwlio, aflonyddu neu gam-drin rhywiol

- 2.1 Fel dysgwr yn y Coleg gallwch roi gwybod i'r Coleg am fwlio, aflonyddu neu gam-drin rhywiol. Gall fod yn ymwneud â dysgwr arall neu aelod o staff y Coleg neu rywun allanol. Bydd y Coleg yn cynnig gwasanaethau cymorth a/neu gyfeiriad allanol i chi, ni waeth am bwy y mae'r adroddiad yn sôn.
- 2.2 Gellir rhoi gwybod i'r coleg trwy nifer o ddulliau:
  - Ar-lein trwy'r [Dudalen Ddiogelu](#) ar yr Hwb Myfyrwyr. Mae hwn yn ddull diogel a chyfrinachol o roi gwybod i'r Coleg am unrhyw fwlio, aflonyddu neu gam-drin rhywiol a allai fod wedi digwydd i chi neu yr ydych wedi'i weld.
  - Wyneb yn wyneb trwy siarad â'ch Anogwr Cynnydd, tiwtor neu unrhyw aelod o staff yr ydych yn teimlo'n gyfforddus yn siarad â nhw, gan gynnwys ein Swyddogion Lles yn y Gwasanaethau Myfyrwyr.
  - Dros y ffôn drwy gysylltu â'r rhif diogelu sydd i'w weld ar gefn holl fathodynau adnabod y coleg. (0300 30 30 009)
  - Drwy anfon e-bost at [diogelu@cambria.ac.uk](mailto:diogelu@cambria.ac.uk)
- 2.3 Mae'r coleg yn gweithio'n agos gyda Stop Hate Crime UK ac asiantaethau cymorth eraill. Os ydych chi'n teimlo eich bod chi wedi bod yn ddiodefwr Trosedd Gasineb neu ddigwyddiad Casineb, gallwch gael cymorth gan ein Swyddogion Lles yn y Gwasanaethau Myfyrwyr, gan gynnwys cymorth gyda rhoi gwybod am Drosedd Gasineb.



Hefyd gallwch gael cymorth yn dilyn profiad o Drosedd Gasineb neu ddigwyddiad Casineb gan Gydlynnydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y coleg.

2.4 Bydd ein Swyddogion Lles yn cyfeirio achosion lle bo amheuaeth o gam-drin, honiadau o gam-drin neu ddigwyddiadau o niwed, i'r asiantaethau allanol perthnasol. Cyfeiriwch at ein [Polisi Diogelu](#) i gael rhagor o wybodaeth fanwl.

2.5 Mewn achosion o ymosodiad honedig neu ymddygiad honedig y gellir ei ystyried yn drosedd, gallwch roi gwybod am hyn yn uniongyrchol i'r Heddlu yn ogystal ag i'r Coleg.

2.6 Os ydych chi'n iau na 18 oed neu'n oedolyn mewn perygl, fel arfer bydd y coleg yn rhoi gwybod i'ch rhieni/gofalwr o'r hyn sydd wedi digwydd a pha gamau sydd am gael eu gweithredu.

2.7 Os ydych yn ddisgybl cyswllt ysgolion bydd aelod o staff y Coleg hefyd yn rhoi gwybod i'ch ysgol am yr adroddiad a wnaed i sicrhau bod eich ysgol yn darparu cymorth priodol.

2.8 Mae sesiynau cwnsela cyfrinachol ar gael trwy'r Gwasanaethau Myfyrwyr os hoffech chi gael cymorth ychwanegol i'ch helpu o ymdopi gyda'r digwyddiad.

### **3. Datrysiaid Anffurfiol**

3.1 Lle bo modd, byddwn yn ceisio datrys y sefyllfa yn gyflym gan amharu cyn lleied â phosibl. Gall hyn gynnwys cyfarfod gyda'r sawl sydd dan amheuaeth o gyflawni trosedd (os yw'n aelod o gymuned y coleg) i drafod yr honiad i egluro'r ymddygiadau penodol sy'n achosi pryder ac i gytuno ar gynllun gweithredu i ddatrys y materion. Fel arall, efallai y bydd aelod o staff, gyda chytundeb y ddau barti arall, yn arwain cyfarfod rhyngoch chi a'r sawl sydd dan amheuaeth o gyflawni trosedd (os yw'n aelod o gymuned y coleg) i drafod y sefyllfa a dod i gytundeb ar y cyd o ran y ffordd ymlaen.

3.2 Bydd y cam gweithredu sydd wedi'i amlinellu uchod yn addas i nifer o achosion ac yn aml bydd hyn yn ddigon i ddatrys y mater. Lle bo modd datrys y mater yn anffurfiol, dylid gwneud pob ymdrech i wneud hynny a chyn gynted â phosibl.

### **4. Ymchwiliad Ffurfiol**

4.1 Os yw'r mater a gafodd ei adrodd yn cael ei ystyried yn ddigon difrifol i gyfiawnhau ymchwiliad ffurfiol, yna bydd hyn yn cael ei gyflawni'n brydlon gan ddefnyddio Polisi priodol y coleg.

4.2 Ar gyfer materion sy'n ymwneud ag ymddygiad honedig dysgwr yn y coleg, bydd yr ymchwiliad yn cael ei gynnal yn unol â'r [Polisi Disgyblu Myfyrwyr](#).

4.2 Ar gyfer materion sy'n ymwneud ag ymddygiad honedig aelod o staff, bydd yr ymchwiliad yn cael ei gynnal yn unol â'r [Weithdrefn Disgyblu Staff](#).

4.4 Bydd rheolwr annibynnol yn y coleg yn cael ei benodi i gynnal yr ymchwiliad. Byddant yn cyfarfod â chi, y sawl sydd dan amheuaeth o gyflawni trosedd ac unrhyw dystion fel rhan o'u hymchwiliad.

### **Ataliad dros dro yn ystod Ymchwiliad**

4.5 Mewn amgylchiadau eithriadol, er mwyn rhyddhau'r straen neu bwysau oddi ar un neu'r ddau barti, i rwystro'r perygl o ragor o ddigwyddiadau, efallai ei bod yn angenrheidiol atal y sawl sydd dan amheuaeth o gyflawni trosedd, dros dro, wrth aros am ganlyniad yr ymchwiliad. Os bydd angen cynnal Gwrandawriad Disgyblu, gall y gwaharddiad barhau hyd nes y daw'r Gwrandawriad Disgyblu i ben. Bydd telerau unrhyw ataliad dros dro yn unol â'r Polisi Disgyblu perthnasol sydd ar waith.

4.6 Gellir gwneud newidiadau dros dro i amserlenni/grwpiau ar gyfer un neu'r ddau barti hefyd er mwyn i un neu'r ddau barti leihau neu beidio â dod i gysylltiad o gwbl tra bod yr ymchwiliad yn cael ei gynnal.

### **Ymchwiliadau ac Achosion Barnwrol yr Heddlu**

4.7 Lle bo achos troseddol yn yr arfaeth yn erbyn troseddwr honedig, bydd y Coleg yn penderfynu a yw ymchwiliad disgyblu yn briodol, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r Coleg. Lle bo'n briodol, bydd y weithdrefn disgyblu briodol yn cael ei chynnal yn wrthrychol ac ni fydd yn cael ei gohirio na'i hoedi fel arfer oherwydd unrhyw achos o'r fath, oni bai bod yr Heddlu neu gorff rheoleiddio arall yn cynghori i wneud hynny.

### **Canlyniad yr ymchwiliad**

4.8 Ar ôl ymchwilio i'r ffeithiau, bydd y Rheolwr Ymchwilio yn rhoi gwybod i chi am ganlyniad y canfyddiadau a'r casgliadau gan gynnwys y camau nesaf. Bydd unrhyw bartion eraill yn ymwneud â'r gŵyn, yn cael eu hysbysu'n briodol hefyd. Os mai'r casgliad yw y dylid ystyried y mater dan sylw mewn Gwrandawriad Disgyblu ffurfiol, yna bydd hyn yn cael ei gynnal yn unol â'r Polisi Disgyblu perthnasol. Oherwydd cyfrinachedd gwrandawriadau o'r fath, ni fyddwch yn cael gwybod am y canlyniad.

DIWEDD

**Atodiad Un - Ymagwedd Raddedig at Gam-drin Cyfoedion**

[Dolen at Sleidiau Hyfforddiant Mewnol \(Mawrth 2024\)](#)